Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynllun cyhoeddi Estyn

Rhagfyr 2008

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

℅ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad		**1**
1	**Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud**	**4**
2	**Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario**	**8**
3	**Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud**	**10**
4	**Sut rydym yn gwneud penderfyniadau**	**12**
5	**Ein polisïau a'n gweithdrefnau**	**14**
6	**Rhestrau a chofrestri**	**18**
7	**Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig**	**19**

Cyflwyniad

Dyma'r cynllun cyhoeddi ar gyfer Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), a luniwyd o dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn unol â chynllun cyhoeddi model ICO 2008 a gymeradwywyd.

Mae'r cynllun cyhoeddi wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Estyn ym mis Rhagfyr 2008.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) yn gyfraith ar 30 Tachwedd 2000 a'i bwriad yw meithrin diwylliant agored mewn llywodraeth. Roedd darpariaethau cynllun cyhoeddi'r Ddeddf mewn grym ar gyfer Estyn a chyrff cyhoeddus eraill o fis Tachwedd 2002 ymlaen. O dan y darpariaethau hyn, mae gan Estyn ddyletswydd i amlinellu pa wybodaeth mae'n ei chyhoeddi a sut y bydd ar gael i'r cyhoedd. Daeth gweddill darpariaethau'r Ddeddf, sy'n ymwneud â hawliau'r unigolyn i gael mynediad i wybodaeth, i rym ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus ym mis Ionawr 2005.

Nod y cynllun cyhoeddi hwn yw esbonio pa wybodaeth am Estyn a'i waith sydd ar gael i'r cyhoedd yn arferol. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan y dylai'r cynllun cyhoeddi nodi:

- pa wybodaeth rydym yn ymrwymo i'w chyhoeddi fel rhan o'r drefn;
- sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi; ac
- a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl.

Mae Estyn eisoes yn cyhoeddi cryn dipyn o wybodaeth mewn ymateb i ddeddfwriaeth sy'n delio â'i weithgareddau arolygu a darparu cyngor. Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi mwy o wybodaeth am ein gwaith.

Dyma'r saith dosbarth gwybodaeth y mae Estyn yn ymrwymo i'w cyhoeddi:

1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

2 Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud

4 Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

5 Ein polisïau a'n gweithdrefnau

6 Rhestrau a chofrestri

7 Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Ar 1 Ionawr 2005, daeth Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol newydd i rym hefyd, gan roi hawl i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i wybodaeth amgylcheddol y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei dal. Mae Estyn yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn ôl yr angen.

Adolygu'r cynllun cyhoeddi

Rydym yn croesawu pob sylw am y cynllun hwn ac am ein cyhoeddiadau eraill. Bydd ein cynllun cyhoeddi'n cael ei adolygu'n rheolaidd yng ngoleuni adborth gan ein rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwefan a thrwy ymgynghori â nhw.

Lleoli cyhoeddiadau

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yr ydym yn ymrwymo i'w chyhoeddi o dan y cynllun hwn ar gael yn electronig a gellir ei chael yn uniongyrchol o wefan Estyn yn: www.estyn.gov.uk Mae ein gwefan wedi'i chynllunio yn unol â chyngor y Llywodraeth ar hygyrchedd. Os na allwch ddefnyddio'r Rhyngrwyd ac yr hoffech gael copi o'r cynllun mewn fformat penodol (er enghraifft mewn print bras), cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod ac fe geisiwn fodloni eich gofynion.

I ddarllen dogfennau PDF, bydd angen Adobe Acrobat Reader arnoch; mae hwn ar gael am ddim o wefan Adobe. Mae gwefan Estyn yn cynnwys cyswllt â gwefan Adobe neu efallai y byddwch yn dymuno mynd ati'n uniongyrchol yn:
www.adobe.com/products/acrobat/readstep.html

Hawlfraint

Mae holl gyhoeddiadau Estyn, ar ba bynnag ffurf y cânt eu cyhoeddi, yn ddarostyngedig i hawlfraint y Goron a weinyddir gan Lyfrfa Ei Mawrhydi, sy'n rhan o Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI).

Mae cyhoeddiadau sy'n cael eu cynhyrchu gan Estyn yn cynnwys y datganiad hawlfraint canlynol:

© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Ar gyfer y cyhoeddiadau hynny sy'n cael eu casglu a'u dosbarthu i sefydliadau gan arolygwyr cofrestredig trwy gontractwyr, ac arolygwyr cofrestredig y cyfnod sylfaen, mae'r hawlfraint ganlynol yn berthnasol:

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad am gyhoeddi a hawlfraint ar gael oddi wrth: Office of Public Sector Information, Information Policy Team, St. Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ Ffôn: 01603 723000.

Eithriadau

Dyma'r wybodaeth sy'n cael ei heithrio o'r cynllun cyhoeddi hwn:

- gwybodaeth sy'n cael ei hatal rhag cael ei datgelu gan y gyfraith, e.e. yn amodol ar eithriadau i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- gwybodaeth mewn fformat drafft;
- gwybodaeth sydd wedi'i harchifo, gwybodaeth wedi'i dyddio neu wybodaeth sydd fel arall yn anhygyrch;
- gwybodaeth a fyddai'n anymarferol neu'n feichus iawn i baratoi'r deunydd ar gyfer ei rhyddhau yn arferol; neu
- gwybodaeth nad yw'n cael ei chadw mwyach

Gellir gwneud cais ysgrifenedig am wybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi o dan y cynllun hwn, a bydd yn cael ei hystyried yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mwy o wybodaeth am gynllun cyhoeddi Estyn a sut i gysylltu â ni

Mae mwy o wybodaeth am gynllun cyhoeddi Estyn a sut rydym yn ymateb i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael gan y Swyddog Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol

Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446
Ffacs: 029 2044 6448
E-bost: ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk.

Mae mwy o gopïau o'r cynllun hwn ar gael o'n gwefan drwy ddilyn y ddolen:
http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_estyns_publication_scheme_december_2008.pdf

I gael copi papur o'r cynllun cyhoeddi, cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth yn y cyfeiriad uchod.

1 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ystyr Estyn yw 'cyrraedd', 'ymestyn' neu 'ehangu'.

Mae gwaith Estyn yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol ac o ansawdd uchel sy'n arbennig i Gymru ac yn diwallu ei hanghenion. Mae safbwynt Cymru-gyfan unigryw Estyn yn cynorthwyo datblygu a gweithredu polisi ar gyfer addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

Ein diben allweddol fel sefydliad o hyd yw hyrwyddo rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr trwy gyfrannu at godi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn defnyddio ein busnes craidd i gyflawni'r diben eang hwn mewn tair prif ffordd.

- **trwy ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar ansawdd darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru**
- **trwy hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru**
- **trwy lywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i gyflawni pob un o'r tri amcan hwn y gorau gallwn, mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod mor effeithlon ac effeithiol ag y gallwn fel sefydliad. Felly, ein pedwerydd amcan strategol yw:

- **datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' a chyflogwr dewis.**

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ac adrodd ar:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith/rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Ariennir Estyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 104 Deddf Llywodraeth Leol i Gymru 1998. Caiff arolygiadau yng Nghymru eu rheoli gan nifer o Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Addysg 2005, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Yn y sector ysgolion, cynhelir bron pob arolygiad o dan gontract gan arolygwyr annibynnol sydd wedi cael eu hyfforddi a'u cymeradwyo gan Estyn. Caiff arolygiadau o ysgolion annibynnol a sectorau eraill, gan gynnwys darparwyr ôl-16, awdurdodau lleol ac arolygiadau ar y cyd â chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill yng Nghymru ac yn y DU, eu cynnal gan Arolygwyr Ei Mawrhydi, gyda chefnogaeth arolygwyr ychwanegol ar secondiad neu sy'n gweithio yn ôl contract, ac aseswyr cymheiriaid.

Strwythur sefydliadol

Mae staff Estyn yn aelodau o Wasanaeth Sifil y DU. Ar 22 Chwefror 2010, roedd Estyn yn cyflogi 99 o staff parhaol yn y Pencadlys yng Nghaerdydd ac mewn swyddfa leol yng Ngogledd Cymru (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, 57 o staff yn y cyfarwyddiaethau arolygu a 42 o staff sy'n delio â pholisi, cynllunio a datblygu sefydliadol).

Mae Estyn yn parhau i secondio staff o ystod o sefydliadau sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant i lenwi nifer o swyddi arolygu. Yn ogystal â staff cyflogedig a staff sy'n cael eu secondio, mae Estyn yn contractio â sefydliadau ac arolygwyr annibynnol i gyflawni rhai agweddau ar ei waith.

Mae uwch dîm rheoli Estyn yn cynnwys y Prif Arolygydd a dau Cyfarwyddwr Strategol.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

Penodwyd Ann Keane yn Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac yn bennaeth Estyn.

Uwch Swyddogion Estyn

Simon Brown
Cyfarwyddwr Strategol

Meilyr Rowlands
Cyfarwyddwr Strategol

Cyfarwyddwyr anweithredol

Mr A Bellamy	Cyn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Glan Y Môr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
Mrs J James	Cyn Gyfarwyddwr Personél, Monarch Airlines
Mr H Edwards	Cyn Brifathro a Phrif Weithredwr Coleg Menai

Mae gwybodaeth am strwythur a threfniadaeth Estyn wedi'i chynnwys yn ei Ddosraniad o Fusnes sydd ar gael ar ein gwefan ar y dolenni canlynol

Dosbarthiad busnes Estyn

a

Pwy sy'n Gwneud Gwaith Estyn.pdf

a

Diffiniadau deddfwriaeth 2010 o arolygwyr

Lleoliadau

Mae gan Estyn ddwy swyddfa, un yng Nghaerdydd ac un yn yr Wyddgrug, Gogledd Cymru.

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
E-bost:
ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Estyn
Tŷ Broncoed
Parc Busnes Broncoed
Yr Wyddgrug
CH7 1HP

Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 01352 758506
E-bost:
ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae mapiau lleoliad wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan:

Sut_i_ddod o hyd_i ni_Caerdydd.pdf

Sut_i_ddod o hyd_i ni_Yr Wyddgrug.pdf

Arolygiaethau

Mae Estyn yn gweithio'n agos gyda'r arolygiaethau canlynol eraill:

- Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC);
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC);

- Arolygiaeth Carchardai EM;
- Arolygiaeth Gwasanaethau Prawf EM; ac
- Ofsted

Partneriaethau

Mae Estyn yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- Arolygiaeth Carchardai EM;
- Arolygiaeth Prawf EM;
- Ofsted;
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Fforwm;
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- ysgolion;
- colegau addysg bellach;
- sefydliadau addysg uwch;
- awdurdodau lleol;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- darparwyr hyfforddiant;
- contractwyr arolygu ysgolion;
- arolygwyr annibynnol;
- Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch;
- Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd;
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
- Arolygiaeth Iechyd Cymru; a
- Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Mae gan Estyn nifer o fforymau arolygu ar waith, sef y fforwm Addysg, partneriaeth, hyfforddiant a chynhwysiad, y fforwm Darparwyr addysg a'r fforwm Ysgolion annibynnol, ac mae pob un o'r rhain yn cyfarfod dwy neu dair gwaith y flwyddyn. Yn y cyfarfodydd hyn, rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar fentrau Estyn ac ar ganfyddiadau o weithgarwch arolygu. Yn ychwanegol, rydym yn cynnal sesiwn briffio i gontractwyr gyda chontractwyr arolygu ysgolion bob blwyddyn.

2 Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

Gwybodaeth ariannol

Rydym yn ymrwymo i barhau i gyhoeddi ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad a Chyfrifon y ddwy flynedd ddiwethaf.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol_2008_2009

Adroddiad_a_Chyfrifon_Blynyddol_2007_2008

Adroddiad_a_Chyfrifon_Blynyddol_2006_07

Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn cyhoeddi:

- costau gweithredu: cofnod o weithgareddau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd;
- cyfrifon adnoddau blynyddol yn rhoi manylion am yr asedau a'r rhwymedigaethau, gan gynnwys datganiad o ganlyniadau ariannol;
- Lwfansau a threulio aelodau'r Bwrdd;
- gwybodaeth o'n hadroddiadau archwilio;
- Dangosyddion Perfformiad;
- costau gweinyddu;
- incwm; ac
- ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu.

Rydym hefyd yn cyhoeddi detholiadau o ddatganiadau ariannol yn Adroddiad Bwrdd Blynyddol Estyn 2007-2008.

Adroddiad_bwrdd_Estyn_2007_2008.pdf

Lwfansau a threuliau Staff ac aelodau'r Bwrdd

Mae Estyn yn cyhoeddi'r lwfansau a delir i aelodau'r Bwrdd yn ei Adroddiad a'i Gyfrifon Blynyddol.

Mae staff Estyn yn dilyn Polisi Teithio a Chynhaliaeth Estyn. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir pan gytunir arno.

Strwythur cyflogau a graddio Estyn

Mae gan Estyn ddau strwythur cyflogau ffurfiol, un ar gyfer Uwch Weision Sifil ac un ar gyfer gweithwyr eraill Estyn. Mae'r manylion am gyflogau a phensiwn ar gyfer Uwch Weision Sifil yn Estyn ar gael yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol 2008-2009:

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol_2008_2009

Mae'r strwythur tâl a graddio ar gyfer pob aelod staff arall i'w gweld yn Telerau ac Amodau Gwasanaeth.pdf

Gweithdrefnau caffael

Mae Estyn wedi sefydlu dull cyson ac unffurf ar gyfer ei weithgareddau caffael. Mae ein gweithdrefnau yn cyd-fynd â gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae manylion am weithdrefnau caffael y Cynulliad ar gael yn y ddolen ganlynol:

new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/smartpurchasing/wob/?lang=cy

Ar gyfer ein gwaith contractio, rydym yn defnyddio'r safleoedd canlynol i hysbysebu cyfleoedd contractio ar gyfer gwasanaethau sydd eu hangen ar Estyn:

https://www.buy4wales.co.uk/buy4wales.aspx?

https://www.sell2wales.co.uk

Rhestrau o gontractau a'u gwerth

Mae manylion am gontractau a ddyfernir ar gyfer arolygiadau ysgolion wedi'u cyhoeddi o dan Datganiad i'r Wasg ac mae gwerth cyffredinol y contractau i'w weld yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol_2008_2009

Mae Estyn yn cynnal cofrestr o'r contractau a ddyfernir a bydd yn ystyried gwneud y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth.

Mae'r dogfennau arweiniad canlynol ar gael ar wefan Estyn mewn perthynas â thelerau ac amodau contractau.

- Amodau contract ar gyfer nwyddau
  Amodau Contract-Nwyddau

- Amodau contract ar gyfer gwasanaethau
  Amodau Contract-Gwasanaethau

- Safon Estyn ar gyfer gwasanaethau fel arolygydd ychwanegol mewn arolygiadau sy'n cael eu harwain gan Estyn yng Nghymru
  Amodau_Contract ar gyfer arolygwyr ychwanegol

- Amodau contract safonol Estyn ar gyfer arolygu ysgolion yng Nghymru o dan adran 28 Deddf Addysg 2005
  Amodau_contract_ar gyfer_arolygu_ysgolion_yn_neddf_addysg_2005.pdf

3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gwneud

Gweledigaeth Estyn yw cael ei gydnabod trwy arbenigedd ei staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru. Ei genhadaeth yw "cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru" i'w gyflawni trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn llunio Cynllun Corfforaethol blynyddol sy'n amlinellu yn y lle cyntaf drosolwg strategol o weithgareddau arfaethedig Estyn am gyfnod o dair blynedd, yn ail, sut byddwn yn monitro ein hansawdd ac yn mesur ein llwyddiant, ac yn olaf, gwybodaeth am ein hatebolrwydd cyhoeddus.

Cynllun_Corfforaethol_Estyn_2009_2012

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- **y trosolwg a'r fframwaith strategol:**
  - hyrwyddo atebolrwydd cyhoeddus;
  - hyrwyddo gwelliant wrth gyflwyno addysg;
  - llywio datblygiad polisi cenedlaethol; a
  - datblygu Estyn fel cyflogwr o ddewis;
- **gweithgaredd gweithredol:**
  - rhaglen arolygu darparwyr addysg yn ôl sector;
  - arolygu ac adolygiadau thematig;
  - monitro a sicrhau ansawdd; a
  - Dangosyddion Perfformiad; ac
- **atebolrwydd cyhoeddus Estyn:**
  - rheolaeth gorfforaethol a rheoli risg; a
  - gwybodaeth ariannol a chyllidebol.

Mae Cynlluniau Corfforaethol Estyn ar gyfer y tair blynedd flaenorol hefyd wedi'u cyhoeddi ar wefan Estyn:
Cynllun_corfforaethol_Estyn_2008_2011.pdf

Cynllun_Corfforaethol_Estyn_2007_2010

Cynllun_Corfforaethol_Estyn_2006_2009

Mae Estyn yn llunio adroddiad blynyddol i ymateb i'r amcanion a nodir yn y cynllun corfforaethol:

Adroddiad_bwrdd_Estyn_2007_2008.pdf

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gweithredol Estyn. Mae hefyd yn rhoi detholiadau o ddatganiadau ariannol Estyn.
Mae'r adroddiadau bwrdd ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol hefyd wedi'u cyhoeddi ar wefan Estyn:

Adroddiad_Bwrdd_Estyn_2006_2007.pdf

Adroddiad_Bwrdd_Estyn_2005_2006.pdf

4 Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Ymgynghoriadau cyhoeddus a gwybodaeth gefndir

Rydym yn ymrwymo i barhau i gyhoeddi papurau ymgynghori ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau Estyn a chrynodebau o ymatebion i'r rhain, yn ôl yr angen. Perchir cyfrinachedd o ran ymatebion a gyflwynir yn gyfrinachol os yw'r wybodaeth yn gyfrinachol iawn. Bydd nifer yr ymatebion cyfrinachol yn cael eu cyhoeddi.

Mae rhestr o ymgynghoriadau Estyn a'r ymatebion ar gael ar ein gwefan yn ymgynghoriadau Estyn

Ar ei wefan, mae Estyn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw gynadleddau allanol sy'n cael eu cynnal, sy'n rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd godi a thrafod materion addysgol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan o dan datganiadau_i'r wasg Estyn

Cyfathrebu mewnol

Mae Estyn yn ceisio cynnwys staff yn weithredol yng ngweithgareddau'r sefydliad, trwy gyfathrebu'n fewnol. Cyflawnir hyn drwy strwythur rheoli clir sy'n hwyluso cyfathrebu dwy ffordd rhwng rheolwyr a staff, a thrwy ddefnyddio nifer o offer cyfathrebu fel cynadleddau, grwpiau ffocws, crynodebau newyddion, cylchlythyrau, briffiau materion gwaith, yn ogystal ag amrywiaeth o offer cyfathrebu electronig. Mae strwythur rheoli Estyn yn cynnwys cyfarfodydd unigol, cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rheolwyr. Ar y lefel uchaf, mae Bwrdd Estyn ac Uwch Dîm Rheoli (UDRh). PAEM yw cadeirydd cyfarfodydd Bwrdd Estyn a'r UDRh.

Diben Bwrdd Estyn yw sefydlu a monitro agenda strategol Estyn, hyrwyddo llywodraethu corfforaethol effeithiol a chynghori ar ddatblygiad Estyn, er mwyn sicrhau ei fudd a'i welliant parhaus fel cyflogwr ac fel gwasanaeth cyhoeddus proffil uchel. Mae aelodau allanol ar y Bwrdd (cyfarwyddwyr anweithredol) ac aelodau Estyn (cyfarwyddwyr gweithredol). Rôl yr aelodau allanol yw cynnig safbwynt ffres, o'r tu allan at drafodaethau yn ogystal â chynnig her adeiladol annibynnol. Nid oes rôl benderfynu gan yr aelodau allanol, ac nid oes ganddynt bleidlais felly ym mhenderfyniadau'r Bwrdd. Rôl ymgynghori yn unig sydd gan yr aelodau allanol, ac maent yn cyfrannu at resymu a gweithrediad y Bwrdd. Mae rôl benderfynu weithredol gan aelodau Estyn, ynghyd â phleidlais ym mhenderfyniadau'r Bwrdd.

Diben yr Uwch Dîm Rheoli yw cefnogi a chynorthwyo PAEM wrth arwain a rheoli Estyn yn unol ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a rheoli risg.

Bydd aelodau Estyn yn dweud wrth staff a rhanddeiliaid am eu penderfyniadau, ac yn gyrru unrhyw waith canlyniadol yn ei flaen, gan gynnwys esbonio'n glir cyfrifoldeb pwy yw dwyn camau gweithredu yn eu blaen a chytuno graddfeydd amser ar gyfer cwblhau camau gweithredu.

Cofnodion cyfarfodydd ac Adroddiadau a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd Lefel Uwch

Mae crynodeb o'r agenda a chofnodion o'r cyfarfodydd ar gael drwy wneud cais amdanynt gan y Swyddog Gwybodaeth:

- Agenda a chofnodion y Bwrdd;
- Agenda a chofnodion y Pwyllgor Archwilio;
- Agenda a chofnodion yr UDRh;
- Agenda a chofnodion y Bwrdd Prosiect (sy'n cynnwys aelodau o'r UDRh); a
- Chyfarfodydd cyhoeddus.

Mae dosbarthiad busnes Estyn yn egluro ein strwythur staffio mewnol.
Dosbarthiad busnes Estyn

5 Polisïau a gweithdrefnau

Mae Estyn yn ymrwymo i gyhoeddi pob protocol cyfredol ar gyfer cyflawni ei swyddogaeth ar ei wefan www.estyn.gov.uk

Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes adrannol

Mae gan Estyn femoranda dealltwriaeth ar waith gydag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill a bydd yn ystyried gwneud y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth.

Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau

Yr Iaith Gymraeg

Mae Estyn yn cyhoeddi Polisi Iaith Gymraeg sy'n mynd i'r afael â'n hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal:

Polisi Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Estyn hefyd yn cyhoeddi polisi gwasanaeth iaith Gymraeg sy'n ymwneud ag arolygiadau:

Polisi Gwasanaeth Cymraeg

Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a chyflogi staff a'r rheiny sy'n gweithio gydag Estyn

Gwneir penodiadau'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, www.civilservice.gov.uk, sy'n golygu bod angen penodi yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Rydym yn ymrwymo i:

- gyhoeddi pob swydd wag ar wefan Estyn (swyddi gwag ar hyn o bryd). Pan fydd swyddi gwag yn codi, bydd y raddfa gyflogau ar gyfer pob swydd wag yn cael ei chyhoeddi yn yr hysbyseb;

- cyhoeddi manylion ar sut i ddod yn arolygydd annibynnol ysgolion. Mae'r arweiniad hwn ar gael trwy ddilyn y ddolen hon: Dod yn Arolygydd_Ysgol; a

- chyhoeddi gwybodaeth am swyddi gwag ar hyn o bryd sydd ar fin codi ar gyfer: arolygwyr annibynnol ysgolion a darpariaeth y blynyddoedd cynnar; enwebeion; aseswyr cymheiriaid; ac arolygwyr ychwanegol mewn sectorau addysg a hyfforddiant perthnasol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi'r polisïau canlynol sy'n rhan o bolisïau a gweithdrefnau Estyn ac yn rhoi arweiniad i staff:

- ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
  Cynllun_cydraddoldeb_hiliol_2008_2011.pdf
- ein Cynllun Cydraddoldeb Rhyw
  Cynllun Cydraddoldeb Rhyw Adroddiad Blynyddol 2009.pdf
- ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
  Cynllun_Cydraddoldeb_Anabledd_2007_2009
- ein polisi amgylcheddol
  Polisi Amgylcheddol
- Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu
  Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu.pdf
- ein polisi SCT
  Polisi Estyn ar wiriadau ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan mewn arolygiadau nad ydynt yn gweithio i Estyn
- Datganiad polisi Iechyd a Diogelwch
  Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir pan gytunir arno.
- Polisi Chwythu'r Chwiban
  polisi a gweithdrefn estyn ar chwythu'r chiwban.pdf
- Polisi Oedran Ymddeol
  Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir pan gytunir arno.
- Polisi Lles
  Polisi Estyn ar Les
- Polisi ar gyfer gyrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol
  Polisi Estyn ar yrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol.pdf
- Polisi ar Wiriadau'r SCT
  Polisi estyn ar wiriadau'r swddfa cofnodion troseddol.pdf
- Polisi Disgyblu
  Polisi a Gweithdrefn Estyn ar Ddisgyblu.pdf
- Polisi Achwyno
  Polisi a Gweithdrefn Achwyno Estyn.pdf
- Polisi Rheoli Presenoldeb
  Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer rheoli presenoldeb.pdf
- Datganiad ar fwlio ac aflonyddu
  bwlio ac aflonyddu datganiad o ymrwymiad y sefydliad.pdf
- Polisi Ffonau Symudol
  Polisi Ffanau Symudol.pdf

- Polisi ar Ddiogelwch y System TGCh Polisi ar y defnydd ar y Rhyngrwyd a'r E-Bost Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac fe'i cyhoeddir pan gytunir arno.

- Gweithdrefn Gwyno Estyn wrth Recriwtio
  Gwithdrefn Gwyno Estyn wrth Recriwtio.pdf

- Polisi gwrth-dwyll
  Polisi gwrth-dwyll.pdf

- Hysbysiad preifatrwydd
  Hysbysiad preifatrwydd

- Polisi sicrwydd gwybodaeth
  Polisi sicrwydd gwybodaeth

Gwasanaeth cwsmeriaid

Caiff dangosyddion perfformiad allweddol Estyn eu cyhoeddi bob blwyddyn yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae Estyn yn cyhoeddi arweiniad ar beth i'w wneud os ydych yn dymuno rhoi adborth neu gwyno am waith Estyn.
Adborth a chwynion .pdf
Arweiniad i gontractwyr arolygu ysgolion ar gyfer delio a chwynion.pdf

Rheoli cofnodion a pholisïau data personol

Mae Estyn yn cyhoeddi ei Bolisi Cadw Cofnodion a'i amserlen sy'n rhoi arweiniad ar ba mor hir y caiff gwybodaeth ei chadw; mae hyn ar gael ar ein gwefan polisi ac amserlen cadw cofnodion.pdf

Rydym hefyd yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth am sut rydym yn gweinyddu Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r wybodaeth hon ar gael o dan Polisi_Diogelu_Data_2007 ar dudalen Am Estyn ar y wefan.

Mae gan Estyn brotocolau a chytundebau partneriaeth ar waith gyda'r sefydliadau a'r asiantaethau canlynol y mae'n rhannu gwybodaeth gyda nhw:

- Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC);
- Swyddfa Archwilio Cymru;
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC);
- Arolygiaeth Carchardai EM;
- Arolygiaeth Gwasanaethau Prawf EM;
- Timau Troseddau Ieuenctid;
- ysgolion;
- colegau addysg bellach;
- sefydliadau addysg uwch;
- DWP;
- Ofsted/ALI;

- awdurdodau lleol;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- APADGOS;
- CBAC;
- Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol;
- CCAUC;
- Comisiynydd Plant Cymru;
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru;
- Sgiliau Adeiladu;
- Gyrfaoedd Sgiliau Hyfforddi; a
- chontractwyr arolygu ysgolion.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae ein gweithdrefnau ar gyfer delio â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r cymorth a'r cyngor y gallwn ei roi i chi wrth wneud ceisiadau ar gael o dan ein Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Rydym yn ymrwymo i:

- ystyried y wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau i ymateb i geisiadau am wybodaeth gyda'r bwriad o drefnu ei bod ar gael yn gyhoeddus; a

- chyhoeddi penderfyniadau yn ymwneud ag Estyn a wnaed gan y Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998, lle mae'r penderfyniad yn effeithio ar nifer sylweddol o unigolion.

Trefn a pholisïau codi tâl

Mae cyhoeddiadau ar ein gwefan ar gael i chi ar gyfer ymchwil/astudio preifat am ddim (hynny yw, nid ydym ni'n codi tâl, er y bydd yn rhaid i chi wrth gwrs dalu unrhyw gostau gan eich darparwr gwasanaeth rhyngrwyd, costau argraffu personol, ac ati).

Codir tâl o £10 yn daladwy i Estyn am geisiadau a wneir o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Cyfeiriwch at y Polisi Diogelu Data yn y ddolen ganlynol: Polisi_Diogelu_Data

Gellir codi tâl hefyd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cyfeiriwch at ein Polisi Rhyddid Gwybodaeth, sydd ar gael yn: Polisi Rhyddid Gwybodaeth

6 Rhestrau a chofrestri

Cofrestri cyhoeddus

Mae Estyn yn cyhoeddi rhestr o gontractwyr ar ei wefan sydd wedi'u contractio i ymgymryd ag Arolygiadau Ysgolion; gellir mynd at y rhestr o'r ddolen isod:

Manylion_Cyswllt_Contractwyr

Mae Estyn hefyd yn cyhoeddi rhestr o'r arolygiadau sydd ar fin digwydd:

Amserlen Arolygiadau

Cofrestri asedau

Mae Estyn yn cyhoeddi cofnod o asedau sefydlog ac asedau cyfredol yn ei Gyfrifon Blynyddol:

Adroddiad_a_chyfrifon_blynyddol_2007_2008

Logiau datgelu

Fel arfer dda, mae Estyn yn cyhoeddi Log Datgelu ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth; mae hwn ar gael ar gais.

Cofrestr o fuddiannau a rhoddion

Mae Estyn yn cynnal cofrestr o fuddiannau a rhoddion ar gyfer aelodau'r bwrdd, pob un o'r staff sy'n cael eu cyflogi'n barhaol, secondeion a staff dros dro a bydd yn ystyried gwneud y rhain ar gael trwy gais rhyddid gwybodaeth.

7 Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig

O dan delerau Deddf Addysg 2005, mae'n ofynnol i Estyn lunio Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi i roi trosolwg llawn o'r safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer darparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o'r holl waith arolygu a wnawn. Adroddiad_Blynyddol PAEM_2008_2009

Yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol PAEM, rydym yn cyhoeddi crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol, ac mae hwn ar gael ar ein gwefan o dan Cyhoeddiadau.

Fframweithiau, arweiniad ac amserlenni arolygu

Rydym yn ymrwymo i barhau i gyhoeddi:

- ein fframwaith ar gyfer arolygu (sy'n rhoi manylion am ddibenion ac egwyddorion arolygu, sut bydd arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd, a beth fydd cynnyrch arolygiadau). Mae hwn ar gael yn Y Fframwaith Arolygu Cyffredin;
- ein harweiniad arolygu ar gyfer pob sector addysg a hyfforddiant, gan gynnwys esboniadau o sut rydym yn cynnal arolygiadau, sydd ar gael yn Canllawiau Arolygu;
- amserlenni ar gyfer arolygiadau ym mhob sector, sy'n dangos pryd fydd arolygiadau'n cael eu cynnal (ar ôl rhoi gwybod i'r sefydliadau sy'n cael eu harolygu); ceir hyn yn amserlen arolygiadau;
- arweiniad ychwanegol a/neu atodol ar gyfer arolygwyr cofrestredig ysgolion fel mae'r angen yn codi; a'n
- harweiniad ar gyfer ysgrifennu adroddiadau: canllaw_ysgrifennu_estyn.pdf

Cylchlythyrau

Ein nod yw cyhoeddi cylchlythyrau ar ein gwefan ar gyfer ysgolion fel mae'r angen yn codi; mae'r rhain ar gael o dan gyhoeddiadau Estyn.

Datganiadau i'r cyfryngau

Mae Estyn yn cyhoeddi pob arolwg, cylch gwaith ac amserlen ar gyfer arolygiadau sy'n cael eu rhyddhau i'r cyfryngau ar ei wefan; mae'r rhain ar gael o dan Datganiadau_i'r_wasg

Arweiniad ar gyfer contractwyr arolygu ysgolion

Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi:

- ein hamodau contract ar gyfer arolygu ysgolion yng Nghymru

  Amodau contract safonol Estyn_ar gyfer_arolygu_ysgolion_yng_Nghymru_o dan_ adran 28 deddf addysg_2005

- fel mae'r angen yn codi, Materion Arolygu ar gyfer ysgolion, sy'n rhoi gwybodaeth am drefniadau arolygu: cyhoeddiadau Estyn

- ein harweiniad i gontractwyr arolygu ysgolion ar ymdrin â chwynion
  arweiniad i gontractwyr arolygu ysgolion ar gyfer delio a chwynion.pdf

- Arolygu ysgolion yng Nghymru – proses dendro a dyfarnu
  arolygu ysgolion yng Nghymru -proces dendro a dyfarnu.pdf

- Arweiniad i gontractwyr ar gyfer E-dendro arolygiadau ysgol Adran 28 sydd wedi'u rhoi allan ar gontract
  arweiniad i gontractwyr ar gyfer E-dendro am arolygiadau ysol Adran 28 wed'u contractio'n allanol.pdf

Arolygon a dogfennau arfer dda

Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau o arolygon arolygu ar agweddau ar ddarpariaeth yng Nghymru gyfan, neu mewn rhannau o Gymru, a dogfennau arfer dda, fel mae'r angen yn codi. Mae adroddiadau arolwg a dogfennau arfer dda a gyhoeddwyd er mis Ebrill 2001 ar gael ar wefan Estyn o dan gyhoeddiadau Estyn. Os na allwch ddefnyddio'r Rhyngrwyd neu fod angen copi o adroddiad arolwg / dogfen arfer dda arnoch sydd wedi'i gyhoeddi/chyhoeddi cyn y dyddiad hwn, cewch gopi am ddim trwy ysgrifennu at Uned Gyhoeddiadau Estyn.

Adroddiadau arolygiadau

Rydym yn ymrwymo i barhau i gyhoeddi ar ein gwefan adroddiadau arolygu mudiadau a sefydliadau a gynhelir mewn ymateb i ddeddfwriaeth neu ar anogaeth PAEM, ym mhob un o'r sectorau a amlinellir isod.

Dylai copïau papur o'r adroddiadau ar y sectorau canlynol fod ar gael yn uniongyrchol oddi wrth y mudiad neu'r sefydliad. O dan amgylchiadau penodol, gall y sefydliad godi tâl bychan am hyn. Dylech ofyn i bennaeth y sefydliad am fanylion unrhyw daliadau y gall fod angen i chi eu gwneud wrth ofyn am gopi papur o adroddiad. Nid yw Estyn yn dosbarthu copi caled o adroddiadau arolygu fel arfer.

Oni nodir yn wahanol, mae adroddiadau ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd er mis Ebrill 2002 ar gael ar wefan Estyn ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant canlynol:

- **Darpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau na chynhelir**
  lleoliadau'r blynyddoedd cynnar

- **Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir**
  ysgolion_cynradd

- **Ysgolion uwchradd**
  ysgolion _uwchradd

- **Ysgolion arbennig**
  ysgolion_arbennig
  Mae adroddiadau'r rhan fwyaf o arolygiadau a gynhaliwyd er mis Medi 2001, a phob arolygiad a gynhaliwyd er mis Medi 2002, ar gael ar wefan Estyn.

- **Ysgolion cynradd ac uwchradd annibynnol (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol)**
  ysgolion_annibynnol
  Caiff ysgolion annibynnol eu harolygu o dan adran 163 Deddf Addysg 2002 ac mae adroddiadau o arolygiadau a gynhaliwyd er mis Medi 2004 ar gael ar wefan Estyn.

- **Unedau cyfeirio disgyblion**
  unedau_cyfeirio_disgyblion
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd o fis Medi 2001 ar gael ar wefan Estyn.

- **Gwasanaethau cymorth ieuenctid**
  gwasanaethau_cefnogi_ieuenctid
  Mae adroddiadau arolygiadau ar gael ar wefan Estyn. Dylid cael copïau papur o arolygiadau gan yr awdurdod lleol perthnasol.

- **Awdurdodau Lleol (ALlau)**
  awdurdodau_lleol
  Mae adroddiadau arolygiadau ar gael ar wefan Estyn. Dylid cael copïau papur o adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd, gan gynnwys y rheiny a gynhaliwyd cyn mis Ebrill 2001, gan yr ALl. Efallai y bydd yr ALl yn codi taliad bychan am hyn.

- **Addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon**
  Addysg a Hyfforddiant Athrawon
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Medi 2001 ar gael ar wefan Estyn.

- **Rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau**
  Yr Adran Gwaith a Phensiynau
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Medi 2007 ar gael ar wefan Estyn; cyn y dyddiad hwn, yr enw arnynt oedd **Rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith**. Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er 2001 ar gael ar wefan Estyn Y Ganolfan Byd Gwaith/ darparwyr_y_fargen newydd.

- **Addysg bellach**
  sefydliadau_addysg_bellach

Mae adroddiadau cyhoeddedig arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Ebrill 2001 ar gael ar wefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (www.wfc.ac.uk/fefcw/feqa/index.html)

- **Cwmnïau Gyrfa Cymru**
  Gyrfa Cymru
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Ebrill 2007 ar gael ar wefan Estyn. Mae adroddiadau cyhoeddedig arolygiadau cyn 31 Mawrth 2007 ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Dysgu yn y gwaith**
  hyfforddiant_yn y_gwaith
  Mae adroddiadau arolygiadau dysgu yn y gwaith ar gael ar wefan Estyn. Mae gan Estyn nifer o gyhoeddiadau ar y cyd o adroddiadau o ddarpariaeth dysgu yn y gwaith a gynhaliwyd gyda'r Arolygiaeth Dysgu Oedolion.

  Mae adroddiadau cyhoeddedig arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Ebrill 2001 ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Dysgu oedolion yn y gymuned**
  dysgu oedolion yn y gymuned
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Tachwedd 2004 ar gael ar wefan Estyn.

- **Arolygiadau ardal**
  arolygiadau_ardal
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Ionawr 2004 ar gael ar wefan Estyn.

- **Timau Troseddau Ieuenctid**
  Mae Estyn wedi cynnal nifer o arolygiadau ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.
  www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation

- **Sefydliadau gwarchodol EM yng Nghymru**
  Sefydliadau_gwarchodol_EM_yng_Nghymru
  Mae adroddiadau arolygiadau a gynhaliwyd er mis Ionawr 2008 ar gael ar wefan Estyn.